# Canllaw Gwerthu i'r Cyngor

**CANLLAW I GYFLENWYR A CHONTRACTWYR**

**GORFF 2025**

Nod y canllaw hwn yw helpu cyflenwyr a chontractwyr posibl i ddeall sut mae Cynghorau Ardal yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith ac yn eu helpu i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith ac i gynnig amdanynt.

Y Cynghorau Ardal yw Cynghorau Caerdydd, Torfaen, Sir Fynwy a Bro Morgannwg a nhw sydd wedi datblygu'r Canllaw hwn.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

| TUD | CYNNWYS |
|---|---|
| 3 | Cyflwyniad |
| 4 | Ymagwedd Cyffredin Ardal |
| 5 | Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd Ardal? |
| 6 | Pa reolau, rheoliadau a gweithdrefnau caffael mae Ardal yn eu dilyn? |
| 7 | 4 Llwybr Caffael Ardal |
| 9 | Dewis cyflenwyr addas a chymwys - Amodau Cymryd Rhan |
| 11 | Cyflwyno dyfynbris neu ymateb tendr a gwerthusiad |
| 12 | Dyfarnu contractau |
| 13 | Cyflawni Buddion Llesiant |
| 14 | Buddion Llesiant Cymunedol |
| 15 | Cyflog Byw 'Gwirioneddol' |
| 16 | Economi Gylchol a Lleihau Carbon |
| 18 | Cynigion Cydweithredol a Chonsortia |
| 19 | A fydd sefydliadau'n derbyn adborth? |
| 19 | Sut mae Cynghorau Ardal yn talu eu Cyflenwyr? |
| 19 | Monitro a Rheoli Contractau |
| 20 | Gwneud a Pheidio a Gwneud wrth Dendro |
| 21 | Terminoleg Caffael |
| 23 | Cymorth pellach |

# CYFLWYNIAD

Nod y canllaw hwn yw helpu sefydliadau i ddeall sut mae Cynghorau Ardal yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith ac yn eu helpu i gynyddu eu siawns o ddod i wybod am gyfleoedd a chynnig am waith. Mae'r canllaw hefyd yn cyfeirio sefydliadau at gymorth a gwybodaeth ychwanegol, llawer ohono am ddim i fusnesau Cymreig.

Ardal yw'r enw ar y gwasanaeth caffael, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd ac sy'n darparu'r bartneriaeth gaffael ar y cyd ar draws Cynghorau Caerdydd, Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg. Nod Ardal yw darparu gwerth am arian a chaffael sy'n gymdeithasol-gyfrifol i holl bartneriaid Ardal drwy rannu adnoddau, gwybodaeth, dysgu ac arbenigedd.


Yn ystod 2024/25 gwariodd pedwar awdurdod partner Ardal, Caerdydd, Sir Fynwy, Torfaen, a Bro Morgannwg, dros £1.3 biliwn yn prynu ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 15,000 o gyflenwyr a chontractwyr.



# YMAGWEDD CYFFREDIN ARDAL

Er mwyn sicrhau arbedion i'r holl Gynghorau Ardal a safoni prosesau caffael ar gyfer sefydliadau sydd am weithio gydag unrhyw Gyngor Ardal mae pob Cyngor Ardal wedi mabwysiadu'r un peth:

- **Strategaeth Gaffael Gymdeithasol-Gyfrifol** - mae pob Strategaeth yn nodi'r rôl allweddol y bydd caffael yn ei chwarae wrth alluogi pob Cyngor Ardal i gyflawni eu blaenoriaethau strategol gan gynnwys cyflymu'r symudiad i sero net, sicrhau 'Gwaith Teg' trwy ein cadwyni cyflenwi, a gwneud y mwyaf o effaith economaidd a chymdeithasol leol ein gwariant.
- **Mae Polisi Caffael Gymdeithasol-Gyfrifol** yn dwyn ynghyd nifer o wahanol ofynion deddfwriaethol, mentrau polisi a dyheadau i un fframwaith cydlynol wedi'i seilio ar 8 amcan caffael allweddol. Prif nod y Polisi yw sicrhau bod Cynghorau Ardal yn sicrhau'r lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gorau posib y maent yn eu darparu drwy eu gweithgareddau caffael. Mae Cynghorau Ardal am weithio gyda sefydliadau sy'n rhannu eu gwerthoedd o ran hyrwyddo llesiant.
- **Rheolau Gweithdrefn Gontractau** - mae pob Cyngor Ardal wedi mabwysiadu'r un pedwar Llwybr Caffael o fewn eu Rheolau Gweithdrefn Gontractau. Mae'r Rheolau hyn, a'r ddogfennaeth safonol ategol, yn nodi sut y bydd pob Cyngor yn ymgymryd â chaffael mewn modd cyson.



# LLE GALLAF GAEL GWYBOD AM GYFLEOEDD ARDAL?

Mae Ardal yn awyddus yn bennaf i sefydliadau ddarparu dyfynbris neu'n eu gwahodd i dendro drwy Proactis neu GwerthwchiGymru. Mae Ardal hefyd yn hysbysebu cyfleoedd contract drwy'r systemau canlynol:

- **GwerthwchiGymru** yw gwefan Gaffael Genedlaethol Cymru, mae'n cynnwys yr holl gyfleoedd contract a hysbysebir yn eang â gwerth iddynt sydd islaw ac uwchlaw trothwyon Deddf Gaffaeal (DG 2023) - gw. tud. 6. Mae gan GwerthwchiGymru gyswllt uniongyrchol â'r Platfform Digidol Canolog lle mae'n rhaid cyhoeddi contractau sydd uwchlaw trothwyon DG 2023.
- **Proactis** yw porth e-dendro newydd Ardal ac a ddefnyddir hefyd gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Gwahoddir cyfleoedd contract a/neu cânt eu hysbysebu trwy'r porth hwn i sefydliadau cofrestredig. Wrth gofrestru, mae'n bwysig bod sefydliadau yn dewis y Cyngor Ardal y maent am dderbyn cyfleoedd ganddynt.
- **Platfform Digidol Canolog (Dod o hyd i Wasanaeth Tendr)** Bydd angen i sefydliadau sydd am wneud cais am gyfleoedd dros £25,000 hefyd gofrestru ar y Platfform Digidol Canolog. Mae hyn yn ychwanegol at gael eu cofrestru ar GwerthwchiGymru. Mae'r **Platfform Digidol Canolog** yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gwblhau a chynnal Gwybodaeth Cyflenwyr Craidd gywir a chyfredol.

Mae Ardal yn annog sefydliadau i gofrestru ar Proactis a GwerthwchiGymru. Mae'r ddwy wefan **am ddim** ac yn caniatáu i gyflenwyr dderbyn hysbysiadau tendro awtomataidd trwy e-bost, gweld cyfleoedd trwy'r hafan Cyfleoedd, diweddaru a chynnal eu proffil, derbyn cyfarwyddiadau ar sut i gael gafael ar ddogfennau tendro a gweld manylion contractau a ddyfarnwyd.

I gael mynediad i GwerthwchiGymru a Proactis cliciwch ar yr eiconau isod

Sell2Wales proactis

D.S. Mae'n bwysig eich bod ond yn cofrestru yn erbyn y categorïau sy'n berthnasol i'r nwyddau/gwasanaethau/gwaith rydych chi am eu cyflenwi. Bydd hyn yn sicrhau y byddwch ond yn derbyn cyfleoedd contract sy'n berthnasol i'ch maes gwaith.

Mae cymorth a chefnogaeth ar sut i gyflwyno tendr ar gael gan nifer o sefydliadau; gan gynnwys Busnes Cymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r adran 'Cymorth Pellach'

# PA REOLAU, RHEOLIADAU A GWEITHDREFNAU CAFFAEL MAE ARDAL YN EU DILYN?

Mae'r ffordd y mae'r holl Gynghorau Ardal yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael ei lywodraethu gan gyfraith y DU, gan gynnwys y Ddeddf Gaffael a chan Reolau Gweithdrefn Gontractau pob Cyngor Ardal unigol. Mae elfennau craidd o'r Rheolau wedi'u safoni ar draws yr holl Gynghorau Ardal Contract Ardal. Mae Rheolau Gweithdrefn yn rhoi'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n gyfrifol ac yn dryloyw, waeth beth fo'i werth yn unol â'r Ddeddf Gaffael. Trothwyon y Ddeddf Gaffael (gan gynnwys TAW) yw:

| Nwyddau | Gwasanaethau | Gwaith | Cyffyrddiad ysgafn | Consesiwn |
|---|---|---|---|---|
| £214,904 | £214,904 | £5,372,609 | £663,540 | £5,372,609 |



Pwrpas y Ddeddf Gaffael yw annog cystadleuaeth agored a thryloyw sy'n cael ei gyflawni trwy dendro cystadleuol ledled y DU. Rhaid i holl gaffael y sector cyhoeddus, gan gynnwys caffael islaw trothwyon y Ddeddf Gaffael, barhau i gadw at Egwyddorion triniaeth gyfartal, dim gwahaniaethu, cydnabyddiaeth cydfuddiannol, cymesuredd a thryloywder.

# 4 LLWYBR CAFFAEL ARDAL

Mae'r holl Gynghorau Ardal wedi diweddaru eu Rheolau Gweithdrefn Gontractau i gynnwys yr un 4 llwybr caffael fel y nodir isod.

## LLWYBR 1 - DYFYNBRISIAU HYD AT £25,000*

### Beth sydd angen i sefydliadau ei wneud:

Cofrestru ar GwerthwchiGymru a Proactis.

Ymateb pan ofynnir i chi ddarparu dyfynbri

### Beth fydd y Cyngor yn ei wneud:

1. Mae'r Gyfarwyddiaeth sy'n 'prynu' yn gyfrifol am gael o leiaf un dyfynbris ysgrifenedig, ond argymhellir 3 dyfynbris. Os yw'r dyfynbris yn uwch na £10,000, bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth gyfiawnhau'r rhesymau os na cheisir o leiaf 3 dyfynbris.
2. Dylai Cyfarwyddiaethau ddefnyddio Proactis a/neu GwerthwchiGymru i ganfod sefydliadau er mwyn darparu dyfynbris.
3. Lle bo hynny'n bosibl, dylid ceisio dyfynbrisiau gan gyflenwyr lleol.
4. Bydd cyfarwyddiaethau yn defnyddio manyleb / datganiad o ofynion i sicrhau bod y pris a ddyfynnir yn bodloni eu gofynion.
5. Dim ond yn ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) neu drwy system gaffael electronig gymeradwy'r Cyngor y derbynnir dyfynbrisiau.
6. Dylid gwerthuso'r dyfynbrisiau ysgrifenedig yn unol â meini prawf gwerthuso dyfynbrisiau.

### Cais am Ddyfynbris

Mae hon yn broses llawer symlach o'i gymharu â thendr. Fel arfer, gofynnir am ddyfynbrisiau drwy GwerthwchiGymru, neu os yw'n werth isel drwy e-bost, ac efallai y bydd cyflenwyr yn derbyn pob un neu rai o'r canlynol:

- Cyfarwyddiadau i gyflwyno'r dyfynbris
- Manyleb Gofynion (y mae'n rhaid i gyflenwyr seilio eu dyfynbris arni).
- Rhestr Brisiau
- Meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio (os oes elfen o ansawdd i'w hasesu hefyd)

## LLWYBR 2 - DYFYNBRISIAU £25,000* I £75,000*

### Beth sydd angen i sefydliadau ei wneud:

Cofrestru ar GwerthwchiGymru a Proactis.

Ymateb pan ofynnir i chi ddarparu dyfynbri

### Beth fydd y Cyngor yn ei wneud:

1. Bydd y Gyfarwyddiaeth sy'n 'prynu' yn gyfrifol am wahodd o leiaf bedwar dyfynbris drwy GwerthwchiGymru. Fe'u hanogir i hysbysebu'r cyfle ar GwerthwchiGymru.
2. Os bydd y cyfle yn cael ei hysbysebu, bydd Hysbysiad Tendr yn cael ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru i hysbysu'r farchnad am y cyfle.
3. Dylai cyfarwyddiaethau ddefnyddio GwerthwchiGymru i ganfod sefydliadau i'w gwahodd i ddarparu dyfynbris.
4. Lle bo hynny'n bosibl, dylid ceisio dyfynbrisiau gan gyflenwyr lleol.
5. Bydd cyfarwyddiaethau yn gwahodd dyfynbrisiau ac yn cynnwys pob un neu rai o'r canlynol – cyfarwyddiadau ar gyfer cyflwyno dyfynbris, manyleb gofynion, rhestr brisio, meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio.
6. Bydd dyfynbrisiau'n cael eu gwerthuso a'u dyfarnu drwy GwerthwchiGymru.
7. Bydd Hysbysiad Manylion Contract yn cael ei gyhoeddi drwy GwerthwchiGymru i hysbysu'r farchnad bod contract wedi'i ddyfarnu.

### Cais am Ddyfynbris

Mae hon yn broses llawer symlach o'i gymharu â thendr. Fel arfer, gofynnir am ddyfynbrisiau drwy GwerthwchiGymru, neu os yw'n werth isel drwy e-bost, ac efallai y bydd cyflenwyr yn derbyn pob un neu rai o'r canlynol:

- Cyfarwyddiadau i gyflwyno'r dyfynbris
- Manyleb Gofynion (y mae'n rhaid i gyflenwyr seilio eu dyfynbris arni).
- Rhestr Brisiau
- Meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio (os oes elfen o ansawdd i'w hasesu hefyd) .

*nid yw'r gwerthoedd hyn yn cynnwys TAW. Mae trothwyon uwchlaw'r Ddeddf Gaffael yn cynnwys TAW.

Bydd unrhyw hysbysiadau yn cael eu cyhoeddi gan Gynghorau Ardal yn uniongyrchol.

# 4 LLWYBR CAFFAEL ARDAL*

## LLWYBR 3 – TENDRAU £75,000* I DROTHWY'R DDEDDF GAFFAEL

### Beth sydd angen i sefydliadau ei wneud:

Cofrestrwch ar GwerthwchiGymru, Proactis a'r Platfform Digidol Canolog.

### Beth fydd y Cyngor yn ei wneud:

1. Bydd y Gyfarwyddiaeth sy'n 'prynu' / Tîm Caffael Ardal yn gwahodd o leiaf bedwar tendr drwy GwerthwchiGymru neu Proactis. Mae'r Rheolau Caffael yn annog bod cyfleoedd yn cael eu hysbysebu.
2. Os bydd y cyfle yn cael ei hysbysebu, bydd Hysbysiad Tendr yn cael ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru i hysbysu'r farchnad am y cyfle.
3. Bydd cyfarwyddiaethau yn defnyddio GwerthwchiGymru neu Proactis i ganfod sefydliadau i'w gwahodd i gynnig.
4. Lle bo'n bosibl, dylid ceisio tendrau gan gyflenwyr lleol.
5. Bydd cyfarwyddiaethau yn gwahodd neu'n hysbysebu'r tendr gan nodi eu gofynion yn y pecyn tendro gan gynnwys y meini prawf gwerthuso a'r fethodoleg sgorio.
6. Bydd tendrau yn cael eu gwerthuso a'u dyfarnu drwy GwerthwchiGymru neu Proactis.
7. Bydd Hysbysiad Manylion Contract yn cael ei gyhoeddi drwy GwerthwchiGymru i hysbysu'r farchnad bod contract wedi'i ddyfarnu.

## LLWYBR 4 – TENDRAU UWCHLAW TROTHWY'R DDEDDF GAFFAEL

### Beth sydd angen i sefydliadau ei wneud:

Cofrestrwch ar GwerthwchiGymru, Proactis a'r Platfform Digidol Canolog.

Os ydych am gynnig, caniatewch ddigon o amser i gyflwyno ymateb erbyn dyddiad cau'r tendr.

### Beth fydd y Cyngor yn ei wneud:

1. Os yw tendr yn uwch na £2m bydd yn cael ei gynnwys ar yr Hysbysiad Piblinell 18 mis. Bydd Hysbysiad Tendr yn cael ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru i hysbysu'r farchnad o'r cyfle.
2. Bydd tendrau yn cael eu hysbysebu drwy GwerthwchiGymru.
3. Bydd y prosesau caffael yn dilyn yr amserlen byrraf fel y nodir yn y Ddeddf Gaffael. Bydd yr amserlenni yn amrywio yn ôl graddfa a chymhlethdod y broses gaffael.
4. Bydd y Pecyn Tendr yn cynnwys, manyleb, cwestiynau datganiad dull, y meini prawf gwerthuso a'r fethodoleg sgorio.
5. Dim ond drwy system e-dendro'r Cyngor (Proactis) y bydd tendrau yn cael eu derbyn.
6. Bydd tendrau yn cael eu gwerthuso a'u dyfarnu trwy Proactis.
7. Bydd Hysbysiad Dyfarnu Contract yn cael ei gyhoeddi ar GwerthwchiGymru i hysbysu'r farchnad o'r bwriad i roi contract.
8. Cyhoeddir Hysbysiad Manylion Contract drwy GwerthwchiGymru i hysbysu'r farchnad bod contract wedi'i ddyfarnu.

*nid yw'r gwerthoedd hyn yn cynnwys TAW. Mae trothwyon uwchlaw'r Ddeddf Gaffael yn cynnwys TAW.

Bydd unrhyw hysbysiadau yn cael eu cyhoeddi gan Gynghorau Ardal yn uniongyrchol.

# DEWIS CYFLENWYR ADDAS A CHYMWYS – AMODAU CYMRYD RHAN

Rhaid i Ardal sicrhau bod cyflenwyr yn addas a chymwys i gyflawni'r gofynion penodedig yn unol â'r contract.

Er mwyn asesu addasrwydd y cyflenwr, bydd Ardal naill ai yn:

- Danfon Holiadur Penodol ar Gaffael (gan gynnwys cwestiynau ar allu a chapasiti).
- Danfon Ffurflen Hunan-ardystio.
- Dibynnwch ar ddata cyflenwyr sydd eisoes yn cael ei ddal gan Ardal.

Er mwyn sicrhau bod Ardal yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n gyson ac yn gymesur â gwerth, risg a chymhlethdod y contract, mae'r Ardal wedi mabwysiadu'r Holiadur Penodol ar Gaffael Cymreig (HPG). Mae hyn yn rhoi cyfres safonol o gwestiynau a chanllawiau yn ymwneud â'u cais a'u defnydd ar gyfer y meysydd canlynol: Gellir gwerthuso'r rhain drwy wahanol ffurfiau fel sgorio, pasio/ methu neu er gwybodaeth yn unig. Bydd hyn yn cael ei amlinellu'n glir yn y ddogfennaeth.

**Rhan 1 a 2 – Cadarnhau gwybodaeth cyflenwr a gwybodaeth am eithriadau ychwanegol**

- Adolygu meini prawf gorfodol ac yn ôl disgresiwn, gan gynnwys adolygu'r Rhestr Waharddd, i sicrhau bod pob cyflenwr, person cysylltiedig neu is-gontractwr yn cael eu heithrio neu y gellir eu heithrio ar sail troseddau fel cynllwynio, diogelwch cenedlaethol, llygredd, twyll, llwgrwobrwyo, methdaliad ac ansolfedd o dan y Ddeddf Gaffael.

**Rhan 3 – Cwestiynau Penodol ar Gaffael**

- **Capasiti Ariannol**: Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i ddarpar gyflenwyr posib gofrestru gyda Dun & Bradstreet (D&B) a / neu ddarparu ffigurau elw a cholled y 2 flynedd ddiwethaf. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o nwyddau, gwasanaethau neu waith gaiff eu tendro. Weithiau lle nad yw capasiti ariannol yn bodloni gofynion y tendr, gofynnir efallai am Warant Rhiant-Gwmni.
- **Yswiriant**: Ar ddechrau'r contract, efallai y gofynnir i ddarpar gyflenwyr gyflwyno tystiolaeth o isafswm lefelau Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus ac Indemniad Proffesiynol.

- **Capasiti cyfreithiol**: efallai y gofynnir i ddarpar gyflenwyr gadarnhau eu bod yn gallu cydymffurfio â GDPR a chyfreithiau diogelu data y DU. Ynghyd â chadarnhad y byddant yn bodloni gofynion Cynllun Ardystio Seiber Hanfodol neu gyfwerth.
- **Gallu technegol**: manylion am brofiad blaenorol a chontractau a gyflawnwyd. Cynnig tystiolaeth o gymwyseddau penodol i gontractau, cofrestru â chyrff penodol neu gymwysterau e.e. Arolygiaeth Gofal Cymru.
- **Iechyd a Diogelwch**: bydd hyd a lled yr asesiad yn briodol i natur y contract, yn dibynnu ar y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith a ddarperir.  Lle mae Ardal yn nodi bod angen asesu Iechyd a Diogelwch, rhaid i gyflenwyr fod wedi eu hachredu gan aelod o Gynlluniau Diogelwch mewn Caffael (CDMC/SSIP) (neu gyfwerth) cyn dyfarnu unrhyw gontract.
- **Rheolaeth Amgylcheddol**: cadarnhau ymrwymiad cyflenwyr i effaith amgylcheddol gadarnhaol yn unol ag achrediad Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig neu gyfwerth.
- **Rheoli Ansawdd**: Gwybodaeth am dechnegau sicrwydd ansawdd ac adolygu perfformiad.

**Rhan 3: Gwybodaeth Ychwanegol**

- **Cyfle Cyfartal**: cadarnhau ymrwymiad cyflenwyr i gyfle cyfartal.
- **Gwrthdaro buddiannau**: cadarnhau ymwybyddiaeth o ystyr gwrthdaro buddiannau o dan adran 81 y Ddeddf Gaffael ac a oes unrhyw wrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posibl.
- **Arferion gwrth-gystadleuol** – cadarnhad nad yw cyflenwyr yn gwneud cytundebau sy'n ystumio cystadleuaeth.
- **Dur** – lle bo hynny'n berthnasol, rhaid i gyflenwyr gadarnhau eu systemau, polisïau, safonau a gweithdrefnau wrth reoli dur.
- **Cyflogaeth Foesegol** – efallai y gofynnir i gyflenwyr gadarnhau y byddant yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr ac, i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a chydymffurfiaeth â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, os yw'n berthnasol.
- **Cynlluniau Lleihau Carbon** – yn gymesur â'r gofynion, efallai y bydd yn ofynnol i gyflenwyr gadarnhau eu bod yn cymryd camau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG/GHG) ac ymrwymo i gyflwyno Cynllun Lleihau Carbon.
- **Diogelu**: cadarnhau ymrwymiad cyflenwyr i gydymffurfio â Pholisi Diogelu'r Cyngor ar gyfer Contractwyr.

Yn dibynnu ar werth y contract, bydd cyflenwyr gaiff eu dethol naill ai'n derbyn Cais am Ddyfynbris (CADd/RFQ) neu Gwahoddiad i Dendro (GID/ITT).

**Cais am Ddyfynbris (Llwybrau Caffael 1 neu 2 - o dan £75,000)** - Mae hon yn broses llawer symlach o'i gymharu â thendr. Fel arfer, gofynnir am ddyfynbrisiau drwy GwerthwchiGymru, neu os yw'n werth isel drwy e-bost, ac efallai y bydd cyflenwyr yn derbyn y cyfan neu rai o'r canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Cyfarwyddiadau ar gyflwyno'r dyfynbris.
- Manyleb Gofynion (y mae'n rhaid i gyflenwyr seilio eu dyfynbris arnynt)
- Rhestr Brisio.
- Meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio (os oes elfen o ansawdd y mae'n rhaid ei hasesu hefyd).

Bydd gofyn i gyflenwyr ddychwelyd y dyfynbris yn electronig trwy GwerthwchiGymru neu drwy e-bost.

**Tendr (Llwybrau Caffael 3 neu 4 - dros £75,000)** – yn broses llawer mwy cynhwysfawr.  Bydd cyflenwyr sy'n mynegi diddordeb yn y cyfle yn derbyn pecyn tendro fydd yn cynnwys ystod o ddogfennau tendro. Gellir cyrchu'r dogfennau hyn trwy system e-dendro'r Cyngor. Mae'r pecyn tendro fel arfer yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Gwahoddiad i Dendro
- Manyleb Gofynion
- Datganiadau Dull (cwestiynau sy'n gofyn sut y bydd y gofynion yn cael eu cyflawni).
- Meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio.
- Rhestr Brisio.
- Telerau ac Amodau Contract
- Buddion Llesiant Cymunedol (T+Aau).
- Ffurflen Dendr.

Yn y cam tendro/dyfarnu, bydd y Cyngor yn gwerthuso cynnig y cyflenwr yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir yn y pecyn tendr. Mae hyn yn wahanol i'r **Amodau Cymryd Rhan** sy'n cymhwyso'r cyflenwr ar sail gallu ua chapasiti yn deillio o **brofiad blaenorol**.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg neu Saesneg.  Ni chaiff tendr ar gyfer contract a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, o ran y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac o ran yr amserlen ar gyfer hysbysu'r rhai sy'n cyflwyno tendr am y penderfyniadau). Bydd y Cyngor yn cyfathrebu â rhai sy'n tendro yn eu dewis iaith, boed hynny yn Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Bydd gwerthusiad tendr yn seiliedig ar y Tendr Mwyaf Manteisiol (TMM/MAT). Bydd pwysigrwydd cymharol pwysolion yn cael ei amlinellu'n glir yn y ddogfennaeth dendr. Gall y rhain gynnwys y prif feini prawf canlynol:

1. **Ansawdd**, a ddefnyddir ar gyfer y mwyafrif (os nad y cyfan) o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Os byddant yn cael eu defnyddio, byddant yn wynebu cwestiynau sy'n edrych ymlaen ar sut y byddwch chi'n darparu'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith.
2. **Pris/cost** – pan gânt eu defnyddio, gofynnir am gwblhau ryw ffurf ar restr brisio i werthuso pris y gofyniad.
3. **Buddion Llesiant Cymunedol** – pan gânt eu cynnwys, bydd yn ofynnol i gyflenwyr nodi pa fuddion llesiant cymunedol y byddant yn ymrwymo i'w cyflawni yn ychwanegol at ofynion y Contract.

Er mwyn asesu'r meini prawf ansawdd, gofynnir i gyflenwyr gyflwyno ymateb tendr electronig drwy Proactis. Os oes gan gyflenwr ddiddordeb yn y cyfle, rhaid iddynt glicio ar 'Cofrestru diddordeb' i fynegi diddordeb. Ni fydd dogfennau tendro yn cael eu hanfon at gyflenwyr drwy e-bost; rhaid i gyflenwyr gyrchu'r dogfennau drwy Proactis. Er hynny, gellir gweld y dogfennau heb gofrestru diddordeb yn y cyfle.

## DYFARNU CONTRACT

**Cais am Ddyfynbris** - fel rheol bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r sawl a gyflwynodd y pris isaf. Ond, os oes elfen ansawdd yn rhan o'r gwerthusiad, mae'n bosib nad y cyflenwr a gyflwynodd y dyfynbris isaf o reidrwydd yw'r un fydd yn ennill y contract.

**Tendrau** – i'r rhai a werthuswyd ar y Tendr Mwyaf Manteisiol (TMM), bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r sawl sy'n tendro y bydd ei sgôr gyffredinol uchaf ar y meini prawf gwerthuso tendr.




Mae Strategaeth Gaffael Gymdeithasol Gyfrifol pob Cyngor Ardal wedi'i seilio ar yr un 7 amcan allweddol:

- **Cyfrannu at nod y Cyngor i fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030.**
- **Gwneud gwariant caffael yn fwy hygyrch i fusnesau bach lleol a'r trydydd sector.**
- **Gwella arferion Gwaith Teg a Diogelu a fabwysiedir gan gyflenwyr.**
- **Cynyddu'r buddion cymunedol a'r gwerth cymdeithasol a ddarperir gan gyflenwyr.**
- **Sicrhau gwerth am arian a rheoli'r galw.**
- **Sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a llywodraethiant sy'n gadarn a thryloyw.**
- **Hybu atebion arloesol ac arfer gorau.**

Nod y Strategaeth hon yw sicrhau bod Ardal yn sicrhau'r llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gorau posib y gall ei gyflawni drwy ei waith caffael. Mae Cynghorau Ardal am weithio gyda sefydliadau sy'n rhannu eu gwerthoedd o ran hyrwyddo llesiant.

## SAITH NOD LLESIANT CYMRU



**Buddion Llesiant Cymunedol (BLlC)**

Bydd tendrau dros £250,000 fel arfer yn gofyn i'r sawl sy'n tendro pa fuddion llesiant cymunedol y byddant yn ymrwymo i'w cyflawni. Bydd y cynnig tendr llwyddiannus yn ffurfio rhan o'r Contract. Mae Cynghorau Ardal yn defnyddio'r TOMs Cymreig (bwydlen o BLlC sydd â gwerth ariannol ynghlwm) i fesur gwerth ymrwymiadau BLlC.

Mae'r BLlC y mae Ardal eisiau i'w gontractwyr eu cyflawni yn cynnwys:

- Gweithio gydag ysgolion lleol, cyfrannu at gynlluniau adfywio cymunedol a mentrau cadwyni cyflenwi / amgylcheddol
- Darparu llwybrau cyflogaeth cynaliadwy â chymorth i bobl economaidd anweithgar tymor hir lleol fel rhan o'r gweithlu sy'n cyflwyno contractau.
- Cyflawni 12 ymrwymiad y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Gwneud yn fawr o gyfleoedd cadwyni cyflenwi ar gyfer busnesau bach a chanolig gan gynnwys mentrau cymdeithasol, i wneud cais am gyfleoedd cadwyni cyflenwi.
- Adrodd ar ganlyniadau BLlC trwy'r offeryn adrodd Thrive a chyfrannu at y Cylchlythyr BLlC Ardal chwarterol.



Mae cyflogwyr yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn wirfoddol. Mae'n gyfradd yr awr a bennir yn annibynnol ac yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Caiff ei gyfrifo yn unol â chost sylfaenol byw yn y DU ac yn 2025/26 roedd hynny'n £12.60. Ni ddylid cymysgu'r Cyflog Byw Gwirioneddol â'r Cyflog Byw Cenedlaethol (yr Isafswm Cyflog) sy'n ofyniad cyfreithiol i gyflogwyr.


Mae Cyngor Caerdydd wedi talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w holl weithwyr ers mis Medi 2012 ac wedi ei achredu yn Gyflogwr Cyflog Byw ers mis Tachwedd 2015. Mae hyn yn golygu bod yr holl staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol a thrwy asiantaeth yn derbyn y Cyflog Byw 'Gwirioneddol' o leiaf. Erbyn hyn mae 225 o gyflogwyr cyflog byw achrededig yng Nghaerdydd, gyda dros 10,000 o weithwyr yn cael cynnydd yn eu cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gan arwain at £100m yn ychwanegol yn mynd i'r economi leol.

Mae Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw achrededig ac mae gan Gyngor Caerdydd Gynllun Cymorth Achredu'r Cyflog Byw 'Gwirioneddol' i gynorthwyo busnesau bach a chanolig Caerdydd i gael eu hachredu.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cyflog Byw 'Gwirioneddol', ewch i wefan Cyflog Byw  Cymru.

Mae pob Cyngor Ardal arall yn talu'r Cyflog Byw 'gwironeddol' i'w holl weithwyr ac maent ar daith i ddod yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig.

Mae Ardal bellach yn gofyn yn ei dendrau a yw'r rhai sy'n tendro yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig, a fydd yr holl weithwyr sy'n gweithio ar y contract yn derbyn y Cyflog Byw gwirioneddol ac os na fyddant, i ddarparu rhagor o fanylion. Nid yw'r cwestiynau hyn yn cael eu gwerthuso fel rhan o'r tendr.



## Economi Gylchol a Lleihau Carbon

### Lleihau Carbon

Mae holl Gynghorau Ardal wedi datgan argyfwng hinsawdd a natur ac wedi ymrwymo i fod yn Gynghorau Carbon Niwtral erbyn 2030.

Yn nodweddiadol, mae 80% o ôl troed carbon pob Cyngor Ardal yn dod o allyriadau anuniongyrchol, a elwir hefyd yn allyriadau Cwmpas 3, sy'n deillio o'r nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith rydyn ni'n eu prynu.

Felly, bydd angen cyflawni unrhyw ostyngiad yn ein hôl troed carbon drwy gyfrwng Cyfarwyddiaethau'n ailystyried ac yn herio'r hyn y maent yn ei brynu, gan bwy, sut maen nhw'n cael eu darparu, a, lle bo'n briodol, sut maen nhw'n cael eu defnyddio a'u gwaredu.

Rydym am i'n cyflenwyr weithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo economi gylchol ac yn defnyddio adnoddau yn gynaliadwy. Byddwn yn defnyddio egwyddorion caffael cylchol fwyfwy i brynu mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Mae pob Cyngor Ardal eisiau prynu mewn modd sy'n cefnogi'r egwyddorion o osgoi gwastraff a llygredd drwy ddyluniad, cadw cynhyrchion a deunyddiau mewn defnydd cyhyd â phosibl er mwyn lleihau gwastraff ac effeithiau amgylcheddol negyddol. Prif nod dull economi gylchol yw dylunio gwastraff allan o'r system economaidd. Mae angen i ni feddwl am effeithiau ein pryniannau dros y tymor hir.

### Animeiddiad Taith Carbon

Mae Ardal wedi datblygu animeiddiad 3 munud i esbonio pwysigrwydd lleihau carbon a sut mae gan bob sefydliad rôl i'w chwarae. Rydym hefyd wedi datblygu Ffeithlun Taith Carbon i gefnogi sefydliadau ar eu taith i ddeall eu hallyriadau ac i leihau eu heffaith carbon.

**Cynlluniau Lleihau Carbon**

Mae Cynllun Lleihau Carbon (CLIC/CRP) yn amlinellu sut y bydd sefydliad yn lleihau ei allyriadau carbon, gyda'r nod yn y pen draw o gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050. Mae'n cynnwys nodi ôl troed carbon sylfaenol sefydliad, gosod targedau, ac amlinellu camau gweithredu penodol i leihau allyriadau. Dylid wedyn ddiweddaru cynllun lleihau carbon yn flynyddol i adlewyrchu allyriadau cyfredol sefydliad.

Mae Ardal wedi gweithio gyda 10 Cyngor De-ddwyrain Cymru, i sicrhau dull cyson o ofyn am Gynlluniau Lleihau Carbon ar draws y rhanbarth. Mae pob un o'r 10 Cyngor yn gofyn am CLIC ar bob contract dros £6m (gan gynnwys TAW) ac wrth i'r farchnad ddatblygu, rydym yn bwriadu gostwng y trothwy hwn yn flynyddol.

**Adrodd ar Garbon**

Bydd Ardal yn ymgorffori gofynion adrodd ar garbon fwyfwy mewn contractau gyda'n cyflenwyr. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr sydd â chontractau dros drothwyon penodol ddechrau adrodd eu hôl troed carbon sefydliadol i Ardal. Trwy ddarparu'r wybodaeth hon, gall Ardal ddefnyddio'r data hwn i ddosrannu canran o'r rhain i'n hallyriadau cadwyni cyflenwi, gan helpu i wella cywirdeb ein hadroddiadau carbon ein hunain.

Bydd Ardal hefyd yn cyflwyno gofynion adrodd contract-benodol ar gontractau penodol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr sy'n ymgymryd â chontractau mawr y Cyngor adrodd ar yr allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau'r contract.



**Beth yw Cynnig Cydweithredol neu Gonsortia?**

Cais consortia yw pan fydd dau sefydliad neu fwy – yn aml busnesau bach a chanolig neu sefydliadau trydydd sector, yn ymuno i gyflwyno tendr sengl, ar y cyd ar gyfer contract cyhoeddus. Mae'r ymagwedd hwn yn caniatáu i sefydliadau llai gyfuno adnoddau, sgiliau a phrofiad i gystadlu am gontractau na fyddent efallai yn gallu eu cyflawni ar eu pennau eu hunain

**Pam ei fod yn fuddiol i fusnesau bach a chanolig?**

- **Cynyddu capasiti**; Gall busnesau bach a chanolig at ei gilydd fodloni'r gofynion maint, trosiant neu brofiad ar gyfer contractau mwy
- **Rhannu risg a chost**; Mae costau cynnig a chyfrifoldebau cyflawni yn cael eu rhannu
- **Mynediad i farchnadoedd newydd**; Gall busnesau bach a chanolig fynd i mewn i gadwyni cyflenwi sector cyhoeddus a allai fod wedi bod yn anhygyrch iddynt fel arall
- **Dysgu a rhwydweithio**; Gall gweithio gydag eraill adeiladu partneriaethau hirdymor a gwella sgiliau yn y dyfodol

**Beth yw'r gwahanol fathau o gynnigion Consortia?**

- **Cydweithredu Anffurfiol**; Sefydliadau sy'n cydweithio heb ffurfio endid cyfreithiol ar wahân
- **Model Partner Arweiniol**; Mae un sefydliad yn gweithredu fel arweinydd ac yn cyflwyno cais ar ran grŵp
- **Cerbyd Diben Arbennig (CDA/*SPV*)**; Endid cyfreithiol ar wahân a grëwyd i gyflawni'r contract

Mae Ardal yn annog cyflenwyr a chontractwyr i gyflwyno cynigion consortia neu cydweithredol ar gyfer gwaith Ardal, yn enwedig ar gyfer contractau mwy eu gwerth neu gontractau cymhleth.

Gall cynigion consortia helpu i gynyddu'r siawns o ennill gwaith a bod o fudd yn arbennig i BBaChau a'r Trydydd Sector nad oes ganddynt, efallai, y sgiliau na'r capasiti i gynnig am gontractau mwy eu hunain.

Mae Ardal yn cydnabod yr her y mae cynigion consortia neu gydweithredol yn ei greu ar ddechrau proses dendro. Felly er mwyn caniatau amser i baratoi cyflwyniadau consortia neu gydweithredol, bydd Ardal yn anelu at ddarparu digon o wybodaeth i gyflenwyr cyn i'r broses dendro ddechrau.

Yn ogystal â chydweithio neu drwy gonsortia, rydym yn annog BBaChau a'r trydydd sector i chwilio am gyfleoedd is-gontractio ac adeiladu perthnasoedd â phrif gontractwyr. Gall prif gontractwyr helpu i wneud cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi yn weladwy drwy hysbysebu ar GwerthwchiGymru neu drwy ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr.

Mae cymorth a chefnogaeth ar gael gan nifer o sefydliadau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen Cynnig ar y Cyd Llywodraeth Cymru.

## A FYDD SEFYDLIADAU YN DERBYN ADBORTH?

Bydd Ardal yn darparu adborth i dendrwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus (crynodebau asesu) i'w helpu i wella ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol. Rhoddir adborth yn ysgrifenedig fel rhan o'r llythyr sy'n hysbysu'r tendrwr am ganlyniad y broses gaffael.

## SUT MAE CYNGHORAU ARDAL YN TALU EU CYFLENWYR?

Dylid nodi'r telerau talu yn nogfennau'r contract. Fel arfer, mae'r taliad o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r Tîm Talu dderbyn anfoneb gywir yn unol â pholisïau talu pob Cyngor Ardal.

## RHEOLI A MONITRO CONTRACTAU

Disgwylir i gyflenwyr a chontractwyr gyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith yn unol â'r gofynion a nodir yn nogfennaeth y contract a dangos gwerth am arian. Bydd Ardal yn ymdrechu i sicrhau bod perthynas waith agored ac adeiladol dda gyda'i gyflenwyr a'i gontractwyr, a fydd hefyd yn helpu i adnabod a datrys unrhyw broblemau cyn gynted â phosib.



# GWNEUD A PHEIDIO Â GWNEUD WRTH DENDRO

| GWNEWCH | PEIDIWCH Â |
|---|---|
| Gwiriwch ddyddiad cau ac amser dychwelyd tendrau.<br><br>Gwneud yn siŵr eich bod yn neilltuo digon o amser i lenwi'r ddogfennaeth.<br><br>Cofiwch fod ysgrifennu cynnig da yn cymryd amser.<br><br>Rhowch amser i chi'ch hun ofyn cwestiynau a cheisio gwybodaeth ychwanegol.<br><br>Gwneud yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau fel y'u gosodwyd, gan roi manylion y gofynion penodol a darparu tystiolaeth fel y nodir yn y canllawiau.<br><br>Gofynnwch am eglurhad os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw ran o'r fanyleb neu os oes gennych ymholiadau cyffredinol o ran y dogfennau tendro, gan gynnwys telerau ac amodau'r contract.<br><br>Rhaid cyflwyno ymholiadau sy'n ymwneud ag eglurhad drwy Proactis.<br><br>Cwblhewch yr holl ddogfennau gofynnol yn LLAWN cyn cyflwyno'ch tendr gan gynnwys cyflwyniadau prisio | Peidiwch â gadael y cyflwyno tan y funud olaf na dychwelyd eich tendr ar ôl y dyddiad cau neu'r terfyn amser oherwydd **ni fydd tendrau hwyr yn cael eu hystyried oni bai** bod hynny oherwydd diffyg yn system e-gaffael gyfan y Cyngor.<br><br>Peidiwch â 'chreu' cwestiynau fel y gallwch gynnwys yr hyn rydych chi'n ddymuno yn eich ymateb, dim ond gwybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani y gallwn ei gwerthuso.<br><br>Peidiwch â chael eich dychryn gan y dogfennau - ceisiwch gymorth, e.e. gan gynghorwyr tendr a/neu drwy fynychu digwyddiadau cwrdd â'r prynwr.<br><br>Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod y Cynghorau eisoes yn ymwybodol o'r hyn rydych chi'n ei wneud fel sefydliad. Nid yw gwerthuswyr yn gallu ystyried unrhyw wybodaeth allanol – gwnewch yn siŵr eich bod yn cwmpasu popeth sy'n ofynnol yn eich ymateb tendr!<br><br>Peidiwch â chyflwyno prisiau sydd mor isel, os dyfernir y contract, na allwch gyflenwi'r nwyddau/gwasanaethau am y pris hwnnw i'r ansawdd a nodwyd.<br><br>**Mae gan y cyngor yr hawl i wrthod unrhyw dendr a fydd yn annichonadwy yn ein barn ni.** |

## TERMINOLEG CAFFAEL

Gall llywio drwy faes caffael yn y sector cyhoeddus gynnwys ystod o dermau ac ymadroddion penodol a allai fod yn anghyfarwydd, yn enwedig i sefydliadau newydd neu lai. Mae'r adran hon yn cynnig diffiniadau clir, cryno o derminoleg gaffael a ddefnyddir yn gyffredin i'ch helpu i ddeall dogfennau tendr yn well, cyfathrebu'n effeithiol, ac ymgysylltu'n hyderus yn y broses gynnig.

| Terminoleg | Esboniad |
|---|---|
| Caffael Uwchlaw'r Trothwy | Proses gaffael lle mae gwerth amcangyfrifedig y contract yn cwrdd neu'n fwy na'r trothwyon ariannol penodol a nodir yn Neddf Caffael 2023. |
| Crynodeb o Asesiad | Dogfen a ddarperir i gyflenwyr a gyflwynodd dendr dilys, yn esbonio sut y cafodd eu cynnig ei werthuso a pham ei fod naill ai'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Mae hyn yn disodli'r cysyniad hŷn o "llythyrau canlyniadau". |
| Tendr a Aseswyd | Tendr a gyflwynwyd yn ymwenud â'r Caffael hwn ac a aseswyd at ddibenion penderfynu ar y tendr mwyaf manteisiol ac na chafodd ei ddiystyru gan yr Awdurdod Contractio wrth asesu'r tendrau. |
| Caffael Islaw'r Trothwy | Proses gaffael lle mae gwerth amcangyfrifedig y contract yn disgyn yn is na'r trothwyon ariannol penodol a nodir yn Neddf Caffael 2023. |
| Platfform Digidol Canolog | Canolfan ganolog newydd Llywodraeth y DU ar gyfer caffael cyhoeddus. Mae'n disodli ac yn gwella'r gwasanaeth Dod o Hyd i Dendr presennol a dyma'r un lleoliad lle mae'n rhaid cyhoeddi'r holl hysbysiadau caffael cyhoeddus rheoledig. Mae rhagor o fanylion am y Platfform Digidol Canolog a chofrestru arno i'w gweld isod:<br>• Deddf Caffael 2023: Camau gweithredu allweddol i gyflenwyr – Canllaw ar gofrestru ar y Platfform Digidol Canolog.<br>• Gwybodaeth a Chanllawiau i Gyflenwyr – casgliad o fideos a chanllawiau i gefnogi cyflenwyr i gofrestru a defnyddio'r Platfform Digidol Canolog (Gwasanaeth Dod o Hyd i Dendr gwell) |
| Codau Geirfa Caffael Cyffredin (GCC/CPV) | Mae codau GCC yn godau cynnyrch neu wasanaeth a ddefnyddir mewn caffael cyhoeddus. Maent yn helpu prynwyr a chyflenwyr sector cyhoeddus i siarad yr un iaith wrth hysbysebu a chwilio am gontractau. Mae pob cod GCC yn rhif unigryw sy'n disgrifio math penodol o nwydd, gwasanaeth neu waith. |
| Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol | Proses fwy addasadwy sy'n caniatáu i'r Cyngor ddylunio proses dendro aml-gam. Gall hyn gynnwys pethau fel rhestr fer, trafodaethau, neu gyflwyniadau. |
| Contract Consesiwn | Math o gontract cyhoeddus lle mae'r cyflenwr yn ennill arian yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth neu'r gwaith a ddarperir |
| Amodau Cymryd Rhan | Yr amodau y mae'n rhaid i gyflenwr eu bodloni i ennill y Contract. |

# TERMINOLEG CAFFAEL

| Terminoleg | Esboniad |
|---|---|
| Rhestr Wahardd | Mae'r rhestr wahardd yn rhestr gyhoeddus a reolir yn ganolog o gyflenwyr sy'n cael eu heithrio rhag bidio am gontractau cyhoeddus yn y DU oherwydd pryderon difrifol am eu hymddygiad, eu perfformiad neu eu cydymffurfiaeth. |
| Marchnad Ddeinamig | Cytundeb lle gall cyflenwyr ymuno ar unrhyw adeg a chystadlu am gontractau, a ddefnyddir yn aml ar gyfer nwyddau neu wasanaethau cyffredin. |
| Perfformiad | Cytundeb tymor hir gydag un neu fwy o gyflenwyr sy'n nodi telerau ar gyfer contractau yn y dyfodol, heb ymrwymo i brynu unrhyw beth ar unwaith. |
| Fframwaith Agored | Math o fframwaith sy'n caniatáu i gyflenwyr newydd ymuno ar bwyntiau penodol dros amser. Mae wedi'i gynllunio i fod yn fwy hyblyg a chystadleuol na fframweithiau traddodiadol. |
| Gweithdrefn Agored | Proses syml, un cam lle gall unrhyw gyflenwr gyflwyno tendr llawn. Fe'i defnyddir pan fydd y Cyngor am gadw'r broses yn syml ac yn agored i bawb. |
| Contract Cyffyrddiad Ysgafn | Set hyblyg o reolau caffael ar gyfer contractau gwasanaeth cyhoeddus penodol - yn bennaf ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, a sectorau tebyg (yn seiliedig ar godau GCC/*CPV*). Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn cael eu darparu yn uniongyrchol i bobl neu unigolion sy'n gwarantu mwy o hyblygrwydd. |
| Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad | Pan fo Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â'r farchnad cyn cyhoeddi tendr. Gall hyn fod mewn gwahanol ffurfiau fel cyflwyniadau, digwyddiadau ymgysylltu neu holiaduron. Mae'r Ddeddf Gaffael yn nodi'r hyn y gellir ei wneud ac na ellir ei wneud i sicrhau nad yw unrhyw gyflenwr yn cael mantais annheg a/neu i osgoi ystumio cystadleuaeth. |
| Cais am Ddyfynbris (Is-law £75,000) | Dull caffael a ddefnyddir i gael prisio cystadleuol ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith penodol. Fe'i defnyddir fwyaf ar gyfer contractau gwerth isel i ganolig lle mae'r fanyleb yn glir, a phris yw'r prif ystyriaeth. |
| Tendr (Dros £75,000) | Gwahoddiad strwythuredig a gyhoeddir yn gofyn i gyflenwyr gyflwyno cynnig ffurfiol i gyflawni contract penodol. Mae'n amlinellu'r hyn sydd ei angen, sut y bydd cynigion yn cael eu gwerthuso, a'r rheolau y mae'n rhaid i gyflenwyr eu dilyn. |
| TOMs Cymru | Mae System TOM (Themâu, Canlyniadau, Mesurau) Cymru yn fframwaith gwerth cymdeithasol/buddion llesiant cymunedol (BLIC) a gynlluniwyd i gyd-fynd â chyd-destun deddfwriaethol a pholisi unigryw Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n gydnaws ac yn dilyn egwyddorion System TOM Gwerth Cymdeithasol y DU, sy'n berthnasol yn gyffredinol ledled y DU.<br>Mae System TOM Cymru yn gweithredu fel pecyn cymorth ymarferol ar gyfer integreiddio buddion llesiant cymunedol i gaffael a rheoli prosiectau, gan annog cyflenwyr i ddangos sut y bydd eu gweithgareddau yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru. |

# CYMORTH PELLACH

**Mae Gwasanaeth Tendro Busnes Cymru** yn cefnogi busnesau yn eu hymdrechion i dendro am gontractau sector preifat, neu i'w helpu i lywio drwy'r broses dendro ar gyfer contractau sector cyhoeddus. Gall Ymgynghorwyr Arbenigol Busnes Cymru:

- ganolbwyntio ar fod yn fwy rhagweithiol cyn tendrau byw i bartneriaid a chleientiaid, er mwyn canolbwyntio ar gynorthwyo twf BBaCh i fod yn 'barod i gyflwyno tendr'.
- gweithio'n agos gyda phrynwyr, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, ac asesu pecyn cymorth priodol.
- cynnal digwyddiadau briffio contractwyr, lle bo'n berthnasol ar sail 1 i 1 ar gyfer tendrau dethol.
- darparu mynediad at sesiynau briffio ynghylch y polisïau a'r achrediadau perthnasol angenrheidiol.
- hefyd yn cyfrannu at ddatblygu'r gadwyn gyflenwi leol ar gyfer cwmnïau Haen 1 mwy eu maint.

Mae Darganfyddwr Digwyddiadau Busnes Cymru yn darparu manylion am ddigwyddiadau a rhestrir digwyddiadau hefyd tua gwaelod platfform GwerthwchiGymru sy'n cynnwys digwyddiadau preifat, trydydd sector a rhai cwrdd â'r prynwyr.



**Platfform Digidol Canolog** – Mae rhagor o wybodaeth a chymorth i gofrestru isod:

- Deddf Gaffael 2023: Camau gweithredu allweddol i gyflenwyr – Canllawiau ar gofrestru ar y Platfform Digidol Canolog.
- Gwybodaeth a Chanllawiau i Gyflenwyr – casgliad o fideos a chanllawiau i gefnogi cyflenwyr i gofrestru a defnyddio'r Platfform Digidol Canolog (Gwasanaeth Dod o Hyd i Dendr gwell)

**Cynhelir digwyddiadau** Cwrdd â'r Prynwr gan Ardal i ddarparu gwybodaeth i gyflenwyr am gyfleoedd contract a'r broses dendro. Mae'r rhain yn cael eu hysbysebu i'r holl gyflenwyr sydd wedi'u cofrestru ar Proactis a GwerthwchiGymru. Gallant hefyd gynnig cyfle i gyflenwyr gwrdd â phrif gontractwyr i gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd cadwyn gyflenwi/is-gontractio posib.

**Mae gan Cwmpas** (Ganolfan Cydweithredol Cymru gynt) dîm arbenigol a all helpu sefydliadau i ddatblygu consortia.

Gall y tîm ddarparu cymorth ar sut i strwythuro eich consortiwm, a gallant roi cyngor ar lywodraethiant a materion cyfreithiol a allai effeithio arnoch chi.

**Gall y Trydydd Sector ac Elusennau** ganfod cymorth a chefnogaeth gyda Busnes Cymdeithasol Cymru, consortiwm rhwng Cwmpas, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu a'r Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC/WCVA) yn dylanwadu ac yn siapio'r sector sy'n darparu cyllid i fusnesau newydd. Darperir dolenni i'r sefydliadau hyn.

**Caffael Ardal** – ewch i'n gwefan

**Hoffem glywed gennych**

Nod y canllaw hwn yw rhoi dealltwriaeth gliriach i sefydliadau sydd am weithio gydag Ardal ar sut i wneud cais am waith a'r hyn a allai fod yn ofynnol ganddynt fel cyflenwr neu gontractwr.

Hoffem dderbyn eich adborth ar sut y gallem wella'r canllaw hwn, pa wybodaeth rydych chi'n teimlo sydd ar goll ac a oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys.

Hoffem hefyd dderbyn eich adborth ar eich profiad o gynnal busnes gyda'r cyngor, gwasanaeth y Tîm Caffael ac unrhyw faterion neu broblemau yr ydych wedi dod ar eu traws.

Anfonwch eich sylwadau at CaffaelArdal@caerdydd.gov.uk a fydd yn cysylltu ag awdurdodau lleol unigol yn ôl yr angen.

**Os hoffech chi glywed gan Ardal** Sganiwch y Cod QR i gael y newyddion diweddaraf gan Gynghorau Ardal